

CHARLES, JAMES (1846 - 1920), gweinidog Annibynnol a diwinydd

Enw: James Charles
Dyddiad geni: 1846
Dyddiad marw: 1920
Rhiant: Mary Charles
Rhiant: David Charles
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog Annibynnol a diwinydd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Thomas Eirug Davies

Ganwyd 6 Rhagfyr 1846 yn y Gelli-fach, gerllaw Llanddowror. Symudodd y teulu'n fuan i fferm Waunmabli, rhyw dair milltir i'r de-orllewin o Gaerfyrddin, ac ymaelododd yntau yn Smyrna, Llangain, lle'i codwyd i bregethu. Aeth o ysgol baratoi Parc-y-felfet i Goleg y Bala yn 1871, ac wedi pedair blynedd derbyniodd alwad i Lanuwchllyn. Aeth i Groesoswallt yn 1883, ac i Lôn Swan, Dinbych, yn 1892, lle bu'n fawr ei lafur am chwarter canrif. Ymneilltuodd yn 1917, a bu farw 20 Rhagfyr 1920.

Enillodd safle arweinydd yn ei enwad. Bu am dymor byr yn ystod ei weinidogaeth gyntaf yn is-athro i'r **Parch. Thomas Lewis** yng Bala gadeirydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn 1916, ac yn un o olygwyr *Y Dysgedydd* o 1918 hyd ei farwolaeth. Cymerth ran gyhoeddus hefyd mewn gwleidyddiaeth, ond diwinyddiaeth oedd ei ddiddordeb pennaf. Cyhoeddodd *Emanuel* (1890), *Esboniad ar Lyfr Amos* (1900), *Esboniad ar Epistol I Ioan* (1900), *Iawn a Thadolaeth* (1905), *Agoriad i Ddiwinyddiaeth y Testament Newydd* (1915). Yn 1924 cyhoeddwyd *Y Cysegr Sancteiddiolaf*, yn cynnwys cofiant byr iddo, ynghyd â nifer o'i ysgrifau, gan y Parch. T. Jones. Ymgeisiodd yn ei lyfrau gysoni mynegiadau gwyddonol ei gyfnod â safbwynt uniongrededd. Myfyriwr ydoedd yn ei faes yn hytrach nag arloeswr.

Awdur

Y Parchedig Thomas Eirug Davies, (1892 - 1951)

Ffynonellau

Y Dysgedydd, xcv, 245; xcvi, 375; c, 31

R. T. Jenkins, *Hanes Cynulleidfa Hen Gapel Llanuwchllyn* (1937), 188

H. Blackwell, *NLW MSS 9251-9277A: A Dictionary of Welsh Biography*

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 101576010

Wikidata: Q20733305

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiaid Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.

 Cyfrannu

Arddull APA

x

Davies, T. E., (1953). CHARLES, JAMES (1846 - 1920), gweinidog Annibynnol a diwinydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-CHAR-JAM-1846>

 Cyfrannu

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government